Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru

WSSPR

Wales School for Social Prescribing Research

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol 2021 - 2022

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Amcanion | 4 |
| Pwy ydy Pwy? | 5 |
| Grŵp llywio | 6 |
| Bwrdd cynghori rhyngwladol | 7 |
| Strwythur Sefydliadol | 8 |
| Myfyrwyr a'u prosiectau | 9 |
| Crynodeb y Flwyddyn | 10 |
| Metrigau Craidd | 11 |
| Cyflawniadau allweddol | 12 |
| Themâu | 18 |
| Ymglymiad y Cyhoedd | 21 |
| Casgliadau | 22 |
| Model Rhagnodi Cymdeithasol yng Nghymru | 24 |
| Ein Partneriaid | 25 |


**Mae Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (WSSPR) yn Ganolfan Cymru gyfan, a gyd-arweinir gan Brifysgol De Cymru a Chyngor Gwirfoddoli Cymru. Lleolir WSSPR o fewn Canolfan PRIME Cymru o dan y thema 'Gofal Di-Dor yn Nes at y Cartref' (Seamless Care Closer to Home'), o fewn y pecyn 'Gofal yn Nes at y Gymuned' ('Care Closer to Communities').**

# Rhagair

**Croeso i chi i Adroddiad Blynyddol Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru Research (WSSPR) 2021-2022 WSSPR, a leolir o fewn canolfan PRIME Cymru, a'i lansio yn Ebrill 2020 ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.**

Mae ein hail adroddiad blwyddyn yn y cyfnod cyllido hwn (2020-2023) yn cynnig syniad o'n dealltwriaeth o'r modd y dylid gwerthuso rhagnodi cymdeithasol, datblygiad ein gallu ymchwil, a'r modd y buon ni'n datblygu ein partneriaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i sefydlu'r tystiolaeth ar gyfer rhagnodi cymdeithasol.

Mae'r ysgol a'i phartneriaid wedi parhau i weithio ar y bedair thema: Gwerthuso, Gwerth Cymdeithasol, Addysg a Gweithlu, Llesiant. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r prosiectau ymchwil a nodwyd gennym gyntaf yn 2018. Byddwn yn adrodd ar y pumed thema, Mannau Agored Gwyrdd a Glas a'r Celfyddydau (GABS+), sy'n dod i'r amlwg yn ein trydedd blwyddyn.

Aeth ein hastudiaeth 'Accord' yn ei blaen drwy gyhoeddi adolygiad llenyddiaeth a thrwy ymgynghori gydag academyddion, ymarferwyr ac aelodau o'r cyhoedd, fe nodon ni yr hyn roedden nhw'n yn ei ystyried yn bwysig mewn gwerthusiad da. Mae hyn, nawr, yn cael ei ddatblygu'n fframwaith gwerthuso a safonau riportio, yn barod i'w profi.

Roedd Graddfa newydd Llesiant Cymdeithasol De Cymru (SWSWBS) yn cychwyn ar gyfnod newydd o ddatblygiad gyda phrofion ar fyfyrwyr a staff Prifysgol De Cymru. Mae'n barod erbyn hyn i'w roi ar waith a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ydy'r cyntaf i'w ddefnyddio yn ei Rhaglen Werthuso'r Celfyddydau drwy Bresgripsiwn.

Mae gwaith WSSPR a'n partneriaid wedi helpu i gynorthwyo gwaith pwysig Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion i ddatblygu fframwaith cenedlaethol Rhagnodi Cymdeithasol. Ym mis Medi 2021, ni oedd yn arwain yr astudiaeth 'Understanding social prescribing in Wales: A mixed methods study' gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a Data Cymru. Darparodd hyn y gwaelodlin gwybodaeth cyntaf ar gyfer rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru. Cawson ni fod amrywiaeth mawr yn narpariaeth rhagnodi cymdeithasol, mae'n cynyddu ac mae disgwyliadau uchel sy'n golygu bod technoleg yn allweddol ac mae adnoddau cynaliadwy yn hanfodol i'w lwyddiant.

Yn 2021 cafwyd newidiadau yn nhîm WSSPR. Symudodd Dr Megan Elliott, ein Huwch Gynorthwy-ydd Ymchwil ymlaen i swydd uwch ym maes Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref. Diolch i chi Megan am eich holl waith caled yn helpu i sefydlu WSSPR. Camodd Dr Simon Newstead i mewn i'r rôl hon ym mis Ionawr 2022. Hefyd, symudodd Dr Mary Lynch o Brifysgol Bangor i gadair ym Mhrifysgol Gorllewin yr Alban. Mae Mary yn parhau i weithio gyda ni yn WSSPR tra'n sefydlu ar yr un pryd, sefydliad ymchwil tebyg yn yr Alban. Dolch i'r Athro David Pontin, sydd wedi ymddeol. Yn olaf, diolch i Dr Sally Rees am gyd-gadeirio WSSPR tan Ionawr 2022. Mae Sally, erbyn hyn wedi symud at Lywodraeth Cymru i rôl Pennaeth Gwerthuso a Modelau Newydd Gofal ar gyfer y Gronfa Integredig Rhanbarthol newydd

# Amcanion

## Nod WSSPR ydy cyflenwi allbwn ar bedwar amcan sefydledig.

Yn ogystal â chanlyniadau ac effaith yn y byd academaidd, mae defnyddio'r model ymchwil trosi yn galluogi WSSPR i gael effaith ar bolisi, arferion, iechyd  a llesiant.

**1**

**Meithrin rhaglen ymchwil aml-gyfnod, uchel ei ansawdd i ddatblygu methodoleg gwerthuso ar gyfer rhagnodi cymdeithasol.**

**2**

**Trosi canfyddiadau ymchwil yn arferion, polisi ac addysg.**

**3**

**Cynyddu ymwybyddiaeth o ymchwil a'r gallu i gynnal rhagnodi cymdeithasol ar draws sectorau.**

**4**

**Datblygu 'r gallu ymchwil o fewn Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol.**



# Pwy ydy Pwy

## Pwy ydy Pwy yn y grŵp, strwythur y drefn lywodraethol a phartneriaethau allweddol yn y dyfarniad.

Lleolir WSSPR o fewn Canolfan PRIME Cymru o dan Thema 2: 'Gofal Di-dor yn Nes at y Cartref' ac o fewn  Pecyn Gwaith 4: ‘Gofal yn Nes at y Gymuned’. Bydd gwaith a gynhelir gan WSSPR yn bwydo i mewn i Ganolfan PRIME Cymru drwy gyfarfodydd grŵp gweithredol rheolaidd.

O fewn WSSPR ceir WSPRN, Rhwydwaith Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru. Rhwydwaith ydy hwn o ymchwilwyr ac ymarferwyr yng Nghymru sydd â diddordeb mewn rhagnodi cymdeithasol. Yn gyfredol mae gan y rhwydwaith dros 350 o aelodau.

Drwy’r rhwydwaith, WSPRN, mae tair Cymuned Ymarfer yn gweithredu yng Ngogledd Cymru, , Gorllewin Cymru, a CONNECT Cymru. Mae’r rhain yn bwydo wybodaeth i aelodau y cyhoedd a’r gymuned rhagnodi cymdaethasol ar draws Cymru.

Mae Grŵp Llywio WSSPR yn cwrdd bob dau fis. Ymhlith yr aelodau mae cynrychiolaeth o faes academia trydydd sector, iechyd cyhoeddus, y GIG, gofal cymdeithasol a dau aelod lleyg. Mae’r grŵp llywio yn cynnig canllawiau strategol i’r WSSPR ar sut y gellir manteisio i’r eithaf ar effaith ymchwil yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae’n gweithredu fel cyfaill critigol ac yn cynorthwyo gweithgareddau ymchwil i gyflawni nod ac amcanion yr ysgol.

Bob yn ail fis, bydd Grŵp Gweithredol WSSPR yn cwrdd. Mae’n cynnwys cyfarwyddwr WSSPR, arweinydd y trydydd sector, arweinydd gwerth cymdeithasol, staff  ymchwil wedi’u hariannu’n greiddiol a dau aelod lleyg. Diben y grŵp gweithredol ydy monitro gweithgareddau a chynnydd yn erbyn amcanion grant ac i gydlynu, adolygu, cynnig adborth a chyfrannu at ddatblygiad a chyflenwad y gweithgareddau grant a swyddogaethau cysylltiol.

Mae Bwrdd Cynghori Rhyngwladol WSSPR yn cyfarfod yn flynyddol. Mae'n darparu cyngor annibynnol, sylwadau beirniadol, a safbwyntiau rhyngwladol ar ymchwil WSSPR. Mae'n cynnwys arbenigwyr mewn rhagnodi cymdeithasol, gofal sylfaenol, iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol o Loegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, Sbaen, Sweden, Gwlad Pwyl, Ffrainc, yr Iseldiroedd, Awstralia, Seland Newydd a Chanada. Cyfarfu’r Bwrdd ym mis Tachwedd 2021.

Mae gan WSSPR 10 myfyriwr ymchwil a leolir ym Mhrifysgol De Cymru a Phrifysgol Bangor yn astudio prosiectau yn ymwneud â rhagnodi cymdeithasol. Hefyd, mae 2 fyfyriwr wedi cwblhau eu hastudiaethau yn llwyddiannus eleni.

Mae WSSPR hefyd yn arwain cylch diddordeb rhagnodi cymdeithasol Canolfan Arbenigol Arbenigedd Rhanbarthol Cymru (RCE Cymru). Mae RCE Cymru yn aelod o 150 rhwydwaith byd-eang RCE a ffurfiwyd gan Sefydliad Prifysgol Y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Uwch Astudiaeth o Gynaliadwyedd mewn ymateb i benderfyniad y Cenhedloedd Unedig - Degawd o Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy (2005-2014).

# Grŵp Llywio



**Yr Athro Carolyn Wallace***
Cyfarwyddwr WSSPR
Prifysgol de Cymru
A Chanolfan PRIME Cymru



**Dr Sally Rees***
Cyngor Gwirfoddoli Cymru



**Sara Thomas**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg



**Jan Batty**
Tîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda Iechyd Cyhoeddus Cymru



**Sondra Butterworth***
Cynrychiolydd y Claf a'r Cyhoedd



**Rashmi Kumar**
Cynrychiolydd y Claf a'r Cyhoedd



**Yr Athro Diane Crone**
Prifysgol Metropolitan Caerdydd



**Dr Freya Davies**
Prifysgol Caerdydd a Chanolfan PRIME Cymru



**Emma Davies-McIntosh**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



**Megan Elliott***
Prifysgol De Cymru a Chanolfan PRIME Cymru



**John Gallanders***
Cynrychiolydd y Claf a'r Cyhoedd



**Yr Athro Emeritus Joyce Kenkre**
Prifysgol De Cymru
A Chanolfan PRIME Cymru



**Yr Athro Mark Llewellyn**
Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol,Prifysgol De Cymru
a Chanolfan PRIME Cymru



**Yr Athro Mary Lynch***
Prifysgol Gorllewin yr Alban, gynt o Brifysgol Bangor



**Dr Simon Newstead***
Prifysgol De Cymru
a Chanolfan PRIME Cymru



**Yr Athro Ruth Northway**
Prifysgol De Cymru
a Chanolfan PRIME Cymru



**Yr Athro David Pontin**
Prifysgol De Cymru
a Chanolfan PRIME Cymru



**Dr Glynne Roberts**
Betsi Cadwaladr
Bwrdd iechyd Prifysgol



**Nina Ruddle**
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam



**Yr Athro Steve Smith**
Prifysgol De Cymru
a Chanolfan PRIME Cymru



**Dr Llinos Spencer**
Prifysgol Bangor



**Claire Swales**
PAVO & CONNECT Cymru



**Soo Vinnicombe**
Prifysgol Bangor



**Dr Andy Williams**
Prifysgol Cymru,
Y Drindod Dewi Sant

*Yn aelod grŵp gweithredol WSSPR

# Y Bwrdd Cynghori Rhyngwladol



**Yr Athro Julie Barnett**
Prifysgol Caerfaddon, Lloegr



**Yr Athro Diana Coholic**
Prifysgol Laurentian, Canada



**Dr Katelyn Costello**
Ymarferydd Cyffredinol, Seland Newydd



**Dr Miriam Dolan**
Maple Healthcare, Gogledd Iwerddon



**Dr Daisy Fancourt**
Coleg Prifysgol Llundain, Lloegr



**Miriam Heijnders**
Ymchwilydd Annibynnol Yr Iseldiroedd



**Helen Howson**
Comisiwn Bevan, Cymru



**Yr Athro Jean-Pierre Jacquet**
College National des Généralistes Enseignants, Ffrainc



**Yr Athro Donata Kurpas**
Prifysgol Feddygol Wroclaw, Gwlad Pwyl



**Yr Athro Sinead McGilloway**
Prifysgol Maynooth, Gweriniaeth Iwerddon



**Dr Ferdinando Petrazzuoli**
Prifysgol Lund, Sweden



**Yr Athro Christopher Poules**
Prifysgol New South Wales, Awstralia



**Yr Athro Emmanuelle Tulle**
Prifysgol Glasgow Caledonian Yr Alban




**Dr Josep Vidal-Alaball**
Institute Catala de la Salut, Sbaen



**Dr Nathan Wilson**
Prifysgol Western Sydney Awstralia

# Strwythur Sefydliadol



# Myfyrwyr a'u prosiectau



**Susan Beese | PhD**

Gwerthusiad realistig o aros yn iach yn eich cymuned: Dynodi proffiliau ymyrraeth rhagnodi cymdeithasol ar gyfer math ac effaith.



**Tom Roberts | PhD**

Rhagnodi Cymdeithasol ar Waith: Ymchwiliad Realaidd i wasanaethau'r Trydydd Sector a'r rhai tu allan i'r GIG



**Leanne Hadley | PhD**

Beth sy'n bwysig i mi wrth i mi dalu am ofal. Prosiect Madeline.



**Megan Elliott | PhD (wedi'i gyflwyno)**

Archwiliad realaidd o werthusiad rhagnodi cymdeithasol.



**Genevieve Hopkins PhD**

Archwilio datblygiad Hwb Gofal Cymunedol newydd a gweithredu'r model cymdeithasol hwn wrth ddarparu gofal sylfaenol yng Nghymru.



**Fern Jones | PhD**

Gwerthuso Hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Cyswllt yng Nghymru gan ddefnyddio Dull Realaidd.



**Abraham Makanjuola MRes (cwblhawyd)**

Astudiaeth werthuso i ymchwilio i recriwtio i ymyriadau rhagnodi cymdeithasol ac archwilio setiau sgiliau gweithwyr cyswllt wrth ymdrin ag achosion cymhleth a atgyfeiriwyd (cwblhawyd).



**Gwenlli Thomas MRes (cwblhawyd)**

Datblygu sgwrs am nodi anghenion cymunedol i groesawu llesiant trwy ymyriadau rhagnodi cymdeithasol.



**Cher Leweny | PhD**

Datblygu theori newid ar gyfer rhaglen gymhleth; fframwaith systematig ar gyfer sicrhau canlyniadau mewn Hwb Llesiant newydd ar gyfer Dyffryn Nantlle.



**Dr Suzy Rogers | MPhil**

Ymchwilio i Gelf-Ar-Bresgripsiwn yng Nghymru: Sut i Sicrhau Ffactorau Llwyddiant Critigol ar gyfer Cynaliadwyedd.



**Sarah Way | MRes**

Adolygiad a Gwerthusiad Realaidd o SPARK: Ymyriad Celfyddydol mewn Iechyd ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.

kess 2
Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth
Knowledge Economy Skills Scholarships

**Adam Skinner | MRes**


Prosiect 'Fy Mywyd' - ymyriad rhagnodi cymdeithasol ar gyfer cleifion cyn-diabetig.

# Crynodeb o'r flwyddyn







*Crëwyd y gwaith celf gan Marina McDonald, Swyddog Ymchwil a Chymorth, WIHSC, Prifysgol De Cymru*



*Cyfarfod Bwrdd Cynghori Rhyngwladol Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol (Tachwedd 2021)*




*Cadw mewn cysylltiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol*

# Metrigau Craidd
## Cyfnod adrodd: **2021/2022**

Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru
WSSPR
Wales School for Social Prescribing Research

## Gwobr seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i'r grŵp

Cyllid uniongyrchol a ddyfarnwyd **£82,378**

Swyddi a grëwyd drwy gyllid uniongyrchol **2**

## Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

| Grantiau a enillwyd | Dan arweiniad y grŵp | Grŵp yn cydweithio |
|---|---|---|
| Nifer | 9 | 0 |
| Gwerth | £302,774 | £0 |
| Cyllid i Gymru | £302,774 | £0 |
| Cyllid i grŵp | £234,979 | £0 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru | 5 | 0 |
| Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp | 5 | 0 |

**18**
Nifer y cyhoeddiadau

**8**
Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd


**12**
Nifer y cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan

# Cyflawniadau allweddol

## Crynodeb byr o gyflawniadau allweddol o adroddiad adolygu perfformiad

### Astudiaeth ACCORD

Lansiwyd astudiaeth ACCORD yn 2020. Mae ACCORD yn rhaglen ymchwil aml-gyfnod a gynhelir hyd at 2023. Er gwaethaf poblogrwydd cynyddol rhagnodi cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig, mae adolygiadau systematig wedi amlygu diffyg trylwyredd, risg uchel o ragfarn a chanfyddiadau amhendant yn y gwerthusiad o ragnodi cymdeithasol hyd yma. Nod astudiaeth ACCORD ydy datblygu fframwaith methodoleg gwerthuso, safonau riportio a deunyddiau hyfforddi ar gyfer gwerthuso rhagnodi cymdeithasol i'w defnyddio gan ymchwilwyr, gan gyflenwyr sy'n cynnig gwasanaeth a gan gomisiynwyr. Yn astudiaeth 2021-2022 cyhoeddodd yr astudiaeth adolygiad llenyddiaeth yn nodi (mewn theori) pa mor dderbyniol ddylai gwerthuso rhagnodi cymdeithasol uchel ei ansawdd weithio. Hefyd, cyhoeddwyd yr adroddiad What works when evaluating social prescribing A realist review report 23092021.pdf (wsspr.wales) fel erthygl Exploring how and why social prescribing evaluations work: a realist review | BMJ Open. Yna, gofynnwyd i academyddion, ymarferwyr ac aelodau'r cyhoedd, drwy astudiaeth ar-lein, beth dylid ei gynnwys mewn ymarfer gwerthuso da. Llwyddon ni i nodi'r hyn roedden nhw'n ei ystyried yn bwysig a defnyddiol i'r rôl gwerthuso. ACCORD GCM report v2.pdf (wsspr.wales). Cyflwynon ni ein canfyddiadau a'u trafod gyda Rhwydwaith Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (WSPRN) yn ystod cyfarfod ein Fforwm ym mis Gorffennaf 2021. Mae hyn nawr yn cael ei ddatblygu yn fframwaith gwerthuso a safonau riportio yn barod i'w profi.




*Crynhoad o raglen theori ar gyfer gwerthuso rhagnodi cymdeithasol.*

### Ymglymiad yng ngrŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion ar Ragnodi Cymdeithasol

Cyd-gynullwyd grŵp gorchwyl a gorffen rhagnodi cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 2021. Mynychodd pum aelod o grŵp llywio WSSPR (Yr Athro Carolyn Wallace, Dr Sally Rees, Dr Glynne Roberts, Claire Swales, Sara Thomas). Rydyn ni wedi bod yn cynorthwyo'r grŵp Gorchwyl a Gorffen (G&G/T&F) gyda phedwar peth y gellid eu cyflenwi a helpu i ysgrifennu drafft o ddogfen ymgynghoriad ar gyfer Fframwaith Cenedlaethol Rhagnodi Cymdeithasol yng Nghymru.

Fel rhan o'r grŵp G&G, cyflwynon ni'r astudiaeth "Deall rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru: Astudiaeth o ddulliau cymysg PHW_SP_Report_ FINAL.pdf (wsspr.wales) ynghyd â Iechyd Cyhoeddus Cymru a Data Cymru. Ymatebodd 89 o sefydliadau i'n harolwg , ac yna mynychodd 63 naill ai ein grwpiau ffocws neu ein gweithdai. O'r astudiaeth hon cawson ni'r gwaelodlin cyntaf o wybodaeth am ragnodi cymdeithasol yng Nghymru. Erbyn hyn, rydyn ni'n gwybod mai'r trydydd sector a'r awdurdodau lleol yn bennaf sy'n darparu rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru. Mae gennym dros 500 o ragnodwyr cymdeithasol sydd naill ai'n rhagnodi'n gymdeithasol fel rhan o'u rôl neu eu rôl gyfan. Mae'r sialensiau yn cynnwys contractau byr-dymor, amrywiaethau mewn cyflog, casglu data, cynnal asedau cymunedol neu weithgareddau. Mae amrywiaeth mawr yn narpariaeth rhagnodi cymdeithasol; mae'n tyfu ac mae disgwyliadau mawr sy'n golygu bod technoleg yn allweddol a bod adnoddau cynaliadwy yn hanfodol i'w lwyddiant. Cyflwynon ni ein canfyddiadau i academyddion, ymarferwyr a chomisiynwyr gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddoli Cymru) mewn digwyddiadau ar lein ar gyfer gofal sylfaenol, y trydydd sector a rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru. Yn ogystal, cyflwynon ni ein hadroddiad yn ein hachlysur blynyddol ym mis Tachwedd 2021 yn ystod wythnos rhagnodi cymdeithasol.

## Datblygu Cysyniad o Lesiant Cymdeithasol a Graddfa Llesiant Cymdeithasol

Canfuwyd bwlch yn yr adnoddau oedd ar gael i werthuso a monitro rhagnodi cymdeithasol gan aelodau Rhwydwaith Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (WSPRN). Sylweddolwyd mai dim ond un agwedd o lesiant, sef llesiant meddyliol a aseswyd yn gyfredol, gan anwybyddu llesiant cymdeithasol. I ymateb i hyn, yn 2020 cynhaliodd WSSPR astudiaeth i ddatblygu'r cysyniad o lesiant cymdeithasol.

SWB GCM report final v2.pdf (wsspr.wales)
Defnyddiwyd y canfyddiadau i ddatblygu Graddfa Llesiant Cymdeithasol De Cymru (SWSWBS). Ymunodd Dr Juping Ju a Dr Siva Ganesh â'r tîm i brofi'r SWSWBS ym Mhrifysgol De Cymru gyda myfyrwyr a staff. Gan ei fod  nawr yn barod i'w roi ar waith, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ydy'r cyntaf i'w ddefnyddio yn eu Rhaglen Ragnodi Gwerthuso'r Celfyddydau. Cysylltwch â ni os hoffech ei ddefnyddio.

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| 1 | Rydw i wedi bod yn byw mewn amgylchedd cartref diogel a iach |
| 2 | Dw i wedi gallu mwynhau amgylchedd diogel a iach tu allan i fy nghartref. |
| 3 | Rydw i wedi bod yn ariannol ddiogel ac felly mae digon o arian gen i i ddiwallu fy anghenion |
| 4 | Rydw i wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwerth chweil (â thâl a di-dâl) pryd bynnag dw i eisiau |
| 5 | Rydw i wedi bod yn gallu gwneud pethau roeddwn i'n bwriadu eu gwneud pan roeddwn i eisiau |
| 6 | Rydw i wedi cwrdd â fy nheulu a fy ffrindiau a gwneud pethau gyda'n gilydd pan roeddwn i eisiau |
| 7 | Dydw i ddim wedi bod yn destun aflonyddu na gwahaniaethu |
| 8 | Rydw i wedi bod yn gallu defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn ôl fy angen |
| 9 | Rydw i wedi teimlo'n ddefnyddiol pan dw i'n helpu a chefnogi pobl eraill |
| 10 | Mae pobl wedi parchu fy marn |
| 11 | Rydw i wedi rhyngweithio gydag unigolion eraill pan rydw i eisiau |
| 12 | Rydw i wedi rhyngweithio gydag eraill yn  ddigidol, ar -lein a/neu ddefnyddio ffôn pryd bynnag rydw i eisiau |
| 13 | Rydw i wedi ymglymu â grwpiau cymunedol a/neu weithgareddau pan rydw i eisiau I |
| 14 | Rydw i wedi dysgu llawer am y byd |

*Tabl 1: Un deg pedwar eitem Graddfa SWSWBS.*

## Fforymau Gwerthuso Rhagnodi Cymdeithasol

Gan adeiladu ar lwyddiant y tri fforwm gwerthuso rhagnodi cymdeithasol  a gynhaliwyd rhwng 2020 a 2021, cynhaliodd WSSPR dair fforwm arall ar werthuso rhagnodi cymdeithasol yn ystod 2021-2022. Nod y fforymau hyn ydy darparu man lle gall y rhai sydd â diddordeb mewn rhagnodi cymdeithasol gwrdd i rannu, dysgu a thrafod. Drwy'r gweithgareddau hyn, y gobaith ydy y bydd y fforymau yn helpu i gynnig syniadau a chymorth o ran pynciau gwerthuso a monitro, i weithwyr proffesiynol ac i grwpiau cymunedol.

Yr Athro Carolyn Wallace gynhaliodd Fforwm pedwar a Dr Megan Elliot a gyflwynodd astudiaeth ACCORD – Datblygu fframwaith gwerthuso rhagnodi cymdeithasol a safonau riportio. Cynhaliwyd y pumed fforwm ym mis Tachwedd 2021 a'r thema bryd hynny oedd Defnyddio Gwerth Cymdeithasol ac Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad i Werthuso Rhagnodi Cymdeithasol: Astudiaeth achos o raglen 'Emotion Mind Dynamic'. Cafwyd cyflwyniadau gan Dr Mary Lynch, Hayley Wheeler ac Abraham Makanjoula. Thema'r fforwm olaf oedd Gwella Llesiant Myfyrwyr drwy Gydweithio ar Draws Cymunedau, a'i gynnal ym mis Mawrth 2022, gyda chyflwyniadau gan Dr Mark Davies, Dr Sarah Wallace, Angela Howard a Natasha Whitelaw. Mynychodd cyfanswm o 53 y fforymau, gan gynnig trafodaethau deniadol a ffrwythlon ar fonitro a gwerthuso rhagnodi cymdeithasol.

## Gwerthusiad a ariannwyd gan CCAUC o Wella Llesiant Myfyrwyr mewn Addysg Uwch


Mae iechyd meddwl myfyrwyr wedi gwaethygu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig o gofio effaith pandemig COVID-19. Nod y prosiect hwn oedd gwella llesiant myfyrwyr, datblygu cydnerthedd a hyrwyddo dulliau newydd o weithio gan ddefnyddio model y gellir ei atgynhyrchu o ragnodi cymdeithasol. Mae protocol yr astudiaeth i'w gael yma: Enhancing higher education student well-being through social prescribing: a realist evaluation protocol | BMJ Open.

Cydweithiodd Ymchwilwyr Prifysgol De Cymru ac Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol Glyndwr Wrecsam a Phrifysgol De Cymru ar y prosiect hwn a ariannwyd gan CCAUC sef. Enhancing Student Wellbeing through Social Prescribing | Prifysgol De Cymru. Roedd y prosiect hwn (er gwaethaf dioddef o effaith COVID-19) yn cynnwys adolygiad realydd o bum deg naw o bapurau, dau ddull integreiddio mapio cysyniad grŵp ar-lein (naw deg chwech o gyfranogwyr), cyfweliad a grwpiau ffocws (pedwar deg tri o gyfranogwyr), gweithdy cyd-gynghorol (tri) a chanlyniadau myfyriwr unigol (tri deg dau o gyfranogwyr). Fe nodon ni bum rhan allweddol (yn cynnwys dau ddeg pedwar o egwyddorion trosglwyddadwy) yn ein model o ragnodi cymdeithasol ar gyfer addysg uwch.

Mae'r rhannau allweddol yn cynnwys llwybr myfyrwyr-ganolog, porth hygyrch, hwylusydd medrus, adnoddau dibynadwy, diogel, credadwy a lleoliad iach.

Erbyn hyn, mae'r canfyddiadau yn cael eu rhoi ar waith ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam a'r egwyddorion yn cael eu trosglwyddo i Brifysgol De Cymru. Rydyn ni'n argymell bod angen ymglymiad myfyrwyr a staff er mwyn datblygu'r dull berthynas-ganolog hwn o fynd ati i wella llesiant. Rhaid iddo fod yn fodel sy'n esblygu, gyda iechyd a llesiant wedi'u hymgorffori ymhob agwedd o fywyd Prifysgol. Mae angen technoleg i sicrhau bod data deallus gyda dolenni adborth er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn dal i fod yn fyfyriwr -ganolog ac yn addasu yn ôl hynny. Mae angen dull cyd-gynhyrchiol o fynd ati er mwyn datblygu perthynas sy'n estyn allan gyda'r GIG, asedau cymunedol a'r sector gwirfoddol. Rhannwyd y canfyddiadau interim yn ystod Cynhadledd 2021 Cymdeithas Gweinyddwyr Prifysgol ac a nodwyd gan Gadeirydd y Gymdeithas Revisiting our hot topics part one | AUA. Rhannwyd yr adroddiad terfynol a'i drafod gydag aelodau WSPRN yn ein 6ed Fforwm ar-lein ym mis Mawrth 2022.

## Model Rhagnodi Cymdeithasol ar gyfer Addysg Uwch





## Adeiladu capasiti o fewn WSSPR

Mae WSSPR yn gweithredu mewn modd cynhwysol, gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu ac adeiladu capasiti ymchwilwyr ar bob cyfnod o'u gyrfa. Bu'r flwyddyn yn un lwyddiannus i ni gyda Dr Mary Lynch yn cael cadair ym Mhrifysgol Gorllewin yr Alban. Mae Mary nawr yn Ymarferydd yng Nghyfadran Iechyd Cyhoeddus y DU, yn gadeirydd Grŵp Diddordeb Arbennig Economeg y Gyfadran Iechyd Cyhoeddus. Symudodd Megan Elliott ein Huwch Gynorthwywydd Ymchwil ymlaen i rôl uwch yn Iechyd Cyhodeddus Cymru. Symudodd Dr Sally Rees i swydd Pennaeth Gwerthuso a Modelau nwydd Gofal ar gyfer y Gronfa Integredig Rhanbarthol yn Llywodraeth Cymru.

Ymunodd Dr Simon Newstead â ni ym mis Ionawr gan ennill ei gyllid post doc cyntaf (Iechyd Cyhoeddus Cymru) i ddatblygu rhestr termau ar gyfer rhagnodi cymdeithasol. Enillodd Dr Mark Davies ei gyllid cyntaf PhD Ymchwil Gofal a Iechyd ar gyfer Gwerthuso Hyfforddiant Gweithwyr Cyswllt yng Nghymru gan ddefnyddio dull Realydd ' a chyllid KESS ar gyfer MRes 'Adolygiad Realaidd a Gwerthusiad o SPARK: Celfyddydau mewn Ymyrraeth Iechyd i bobl hŷn yng Nghymru'.

Erbyn hyn mae gennym 10 myfyriwr ymchwil gydag Abraham Makanjuoa a Gwenlli Thomas yn ennil eu dyfarniad MReS a Cher Lewenyyn symud o Mres i astudiaethau PHD. Mae Abraham nawr yn gweithio fel swyddog ymchwil ym yn Mhrifysgol Bangor tra bod Gwenlli wedi cyhoeddi ei chanfyddiadau yn y Cylchgrawn Rhyngwldol Environ Res Public Health a'r Lancet, Meeting Abstracts. Eleni cyflwynodd Megan Elliott ei thraethawd hir (bydd rhaid i chi aros tan y flwyddyn nesaf i glywed am ei llwyddiant) a chroesawon ni Fern Jones (PhD a ariennir gan Ymchwil Gofal a Iechyd Cymru ), Sarah Way ac Adam Skinner (y ddau yn MRes a ariennir gan KESS). Rydyn ni'n parhau i fuddsoddi yn hyfforddi dulliau er enghraifft Dr Mark Davies (Cymrawd Ymchwil Clinigol/Uwch Ddarlithydd) yng Nghanolfan PRIME Cymru/Prifysgol De Cymru sy'n arwain grŵp Adolygiad Realydd a Gwerthuso a'r Athro Carolyn Wallace sy'n arwain Grŵp Mapio cysyniad. Mae'r ddau grŵp yn cynnwys aelodau staff a myfyrwyr o Brifysgol De Cymru a phrifysgolion eraill yng Nghymru ac Iwerddon. Yn ystod 2021-2022 bu'r Athro Carolyn Wallace hefyd yn arholi myfyrwyr MRes, MPhil a PhD ,ym mhrifysgolion Bangor, Caerdydd, Abertawe a Chaerlŷr.

## Datblygu Rhestr Termau ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol

Ar yr adeg pan gychwynnodd Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru, doedd dim diffiniad safonol o ragnodi cymdeithasol. Er bod gan Gymru erbyn hyn ddiffiniad ar gyfer rhagnodi cymdeithasol, mae'r ieithwedd yn gwahaniaethau rhwng gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol, rhwng rhanbarthau a hyd yn oed rhwng gwasanaethau cymunedol o fewn yr un rhanbarth. Yn anochel, mae hyn yn arwain at ddryswch ymhlith y llywodraeth, ymchwilwyr rhagnodi cymdeithasol, comisiynwyr, ymarferwyr a'r rhai ynghlwm wrth wahanol asedau yn y gymuned sy'n cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

**Sondra, Cynrychiolydd Grŵp Llywio y Cleifion a'r Cyhoedd:** *"Gall y defnydd o iaith a dealltwriaeth o'r termau fod yn benodol i grwpiau a thimau arbennig."*

Fe geision ni fynd i'r afael â'r mater hwn drwy ddatblygu rhestr termau safonedig ar gyfer rhagnodi cymdeithasol at ddefnydd y llywodraeth a'r holl wasanaethau ar gyfer hyfforddiant, swydd ddisgrifiadau, ymchwil a gwybodaeth i'r cyhoedd, gan chwalu rhwystrau sy'n llesteirio cyfathrebu effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol a gyda'r cyhoedd.

**John: Cynrychiolydd Grŵp Llywio y Cleifion a'r Cyhoedd:** *"yn sicr, mae angen [yr ymchwil hwn] gan fod pob cyfarfod a gynhelir i drafod rhagnodi cymdeithasol yn cyflwyno geirfa wahanol ac anodd ei deall - weithiau wedi'i chyfyngu o fewn ffiniau proffesiynol a weithiau drwy anwybodaeth. Gorau po fwyaf y gellir ei wneud i ddod ag aml-asiantaethau at ei gilydd er lles unigolion. Bydd hefyd yn helpu i ddatblygu darlun holistaidd o ymyriadau ar gyfer cleifion yn hytrach na segmentu ar draws gwahanol gategorïau o asiantaethau cyflogaeth ar gyfer rhagnodi cymdeithasol."*

I wneud hyn, fe gynhalion ni adolygiad cwmpasu o lenyddiaeth a adolygwyd gan gymheiriaid ac o lenyddiaeth lwyd er mwyn nodi'r derminoleg berthnasol, cyn cychwyn ar yr ail gyfnod sy'n defnyddio Dulliau Consensws Grŵp (GCM) fel modd o gynnig terminoleg ychwanegol ar gyfer y data a gasglwyd yn ogystal â darparu rhesymwaith ar gyfer fframwaith y rhestr termau. Bydd dadansoddiad ystadegol o GCM yn ein galluogi i lunio mapiau clwstwr wedi'u labelu gyda'r derminoleg berthnasol ac adroddiadau cyfatebol yn nodi'r gwahaniaethau yn nehongliadau ymhlith grwpiau demograffig a'u defnydd gwahanol o'r derminoleg (e.e. ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth, cyflogai asedau cymunedol).

Caiff cyfranogwyr eu recriwtio o gymunedau ymarfer rhagnodi cymdeithasol, 'Connect Wales' a rhwydweithiau ymchwil cysylltiedig â WSSPR. Mae sampl y cyfranogwyr yn cynnwys unigolion sy'n ymwneud â rhagnodi cymdeithasol yn rhinwedd eu swydd broffesiynol: Comisiynwyr, meddygon teulu, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, cyflogai gwasanaethau gwirfoddol yn y gymuned, ymchwilwyr cyswllt rhagnodi cymdeithasol ac academyddion. I hwyluso cwblhau'r drafft o'r rhestr termau, sicrhawyd grant gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Chwefror 2022. Dylai'r drafft o'r rhestr termau sydd wedi cael ei hanfon at Fframwaith Cenedlaethol Rhagnodi Cymdeithasol Llywodraeth Cymru fod wedi'i chwblhau erbyn Tachwedd 2022.

> **Gorau po fwyaf y gellir ei wneud i ddod ag asiantaethau at ei gilydd er lles unigolion.**



# Themâu

## Mae ein themâu wedi esblygu drwy ddefnyddio ein model ymchwil drosi.

Drwy'r model hwn, nodir problemau a chwestiynau wrth ymarfer neu gan aelodau o'r cyhoedd yn Rhwydwaith Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru a'u trosglwyddo i'r tîm ymchwil. Mae'r rhain yn sail i'n barn a'r modd yr ydyn ni'n llunio a datblygu ein syniadau ymchwil. Yna, rydyn ni'n defnyddio ein rhwydwaith i rannu ein canfyddiadau, cael adborth ar ein hymchwil a rhoi newidiadau yn seiliedig ar ein hymchwil ar waith. Arweiniodd y diddordeb cynyddol yn ein model at gyfarfod gyda chydweithwyr o Brifysgol Lisbon yn gynharach yn ystod 2021 ac yn ddiweddarach at wahoddiad i gyflwyno yng Nghynhadledd Iechyd Cyhoeddus Ewropeaidd ym mis Hydref 2021 gyda chydweithwyr o Loegr, Portiwgal a'r Almaen. Flwyddyn nesaf, byddwn yn adrodd yn ôl ar ein gwaith rhyngwladol gydag Iwerddon, Yr Undeb Ewropeaidd a'n hawduriaeth mewn cyhoeddiad byd-eang.

*C Wallace, M Elliott, Developing a social prescribing research school using translational research: Learning from Wales, European Journal of Public Health, Volume 31, Issue Supplement_3, October 2021, ckab164.439, https://doi.org/10.1093/eurpub/ckab164.439*

## Thema 1: Gwerthuso

Nod y thema hon, sef Gwerthuso, ydy cyfrannu at ddatblygu gwerthusiad rhagnodi cymdeithasol. Mae'n trafod gwerthuso gyda gwahanol grwpiau'r boblogaeth, cyd-destunau a modelau rhagnodi cymdeithasol tra'n defnyddio dulliau megis adolygiad realydd, gwerthusiad realydd, mapio cysyniad grŵp a dulliau consensws.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein thema Gwerthuso wedi parhau i ddatblygu dwy haen. Yn gyntaf astudiaeth ACCORD sy'n rhaglen ymchwil aml-gyfnod sy'n ceisio datblygu fframwaith gwerthuso, riportio safonau a deunyddiau hyfforddi ar gyfer rhagnodi cymdeithasol. Nodwyd hyn yn gynharach fel un o'n cyflawniadau.

Yn ail, cynhaliodd WSSPR werthusiadau i brofi ein canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o astudiaeth ACCORD, megis Tyfu'n Dda (gardd gymunedol), rhaglenni celfyddydol cymunedol, 'The Body Hotel', yn datblygu a phrofi fframweithiau gwerthuso ar gyfer byrddau partneriaethau rhanbarthol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd ffocws y thema gwerthuso ar ddatblygu'r ddwy haen hyn ymhellach, gan gynhyrchu ymchwil o'r radd flaenaf a fydd yn sail i werthuso rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru, Y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Dylid cyhoeddi erthyglau ar y modd i gynnal gwerthusiad da, golygu llyfr gyda chydweithwyr rhyngwladol a datblygu deunyddiau dysgu er mwyn lledaenu'r gwaith hwn ymhellach.

*Exploring how and why social prescribing evaluations work: a realist review | BMJ Open*

*Way, S., Davies, M., Wallace, C., Acaron, T., Diamond, K., (2022). How do community-based arts in health interventions involving reminiscence, life story work, autobiographical sharing or life review activities, work for older people experiencing social isolation and loneliness? A rapid realist review. PROSPERO: https://www.crd.york.ac.uk/prospero/display_record.php?ID=CRD42022298911*

*Wallace, C., Nicholls, N., Griffiths, L., Elliott, M., (Nov, 2021) Gwerthuso Prosiect Tyfu'n Dda. Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol. Cymru (WSSPR), Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol. De Cymru, Canolfan PRIME Cymru. Tud 54*

**Rhagor o wybodaeth ar:**
**http://www.wsspr.wales/evaluation.php**

## Thema 2: Gwerth Cymdeithasol

Nod y thema hon ydy cynnal ymchwil gwerth cymdeithasol ar gyfer rhaglenni rhagnodi cymdeithasol i ddarparu tystiolaeth ar gyfer effaith ymyriadau, dyrannu adnoddau a gwasanaethau gwerth am arian.

Ym mis Tachwedd 2021, thema Fforwm WSSPR oedd 'Mesur gwerth cymdeithasol ac Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI). Dan arweiniad yr Athro Mary Lynch, cyflwynodd Abraham Makanjuola astudiaeth achos ar "The SROI of EMD to date": camau allweddol a datblygiadau yn y dyfodol.' Dyma'r astudiaeth gyntaf i amcangyfrif yr SROI ar gyfer cleientiaid a gymerodd ran mewn rhaglen hyfforddi ffordd o fyw. Disgrifiodd Hayley Wheeler, sylfaenydd EMD (Emotion Mind Dynamic) hyn fel 'ymyrraeth ar gyfer gwella llesiant meddwl sy'n cyfuno hyfforddi, mentora, addysgu, cwnsela, ymwybyddiaeth ofalgar a phrofiad byw'.

Gweithiodd y tîm gyda'i gilydd ar yr astudiaeth hon a ariannwyd gan 'Accelerate' rhwng Mai 2021 a Mawrth 2022. Y diben oedd amcangyfrif SROI hyfforddiant ffordd o fyw EMD, wyneb yn wyneb ac ar-lein, trwy gymharu costau rhedeg y rhaglen â'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir o cleientiaid fel gwelliant mewn lles meddyliol a hunanhyder. Dangosodd y canlyniadau, am bob £1 a fuddsoddwyd yn y rhaglen EMD wyneb-yn-wyneb, y cynhyrchwyd rhwng £4.12 a £7.08 o werth cymdeithasol i gleientiaid. Am bob £1 a fuddsoddwyd yn y rhaglen EMD ar-lein, cynhyrchwyd rhwng £2.37 a £3.35 o werth cymdeithasol i gleientiaid. Fe ddaethpwyd i'r casgliad, gyda rhestrau aros hir ar gyfer pobl â heriau iechyd meddwl, y gallai hyfforddiant ffordd o fyw ddod yn hanfodol i ateb y galw cynyddol am gymorth iechyd meddwl.

*Makanjuola, A, Hartfiel, N, Cuthbert, A, Lynch, M & Edwards, RT 2022, Social Return On Investment of EmotionalMind Dynamic (EMD). Prifysgol Bangor.*

*Makanjuola, A., Lynch, M., Hartfiel, N., Cuthbert, A. and Edwards, R. T. (2022) A Social Return on Investment evaluation of the Emotion-Mind Dynamic (EMD) two phase social prescribing life coaching intervention to support mental health and wellbeing. | International Journal of Population Data Science (ijpds.org)*

**Rhagor o wybodaeth ar:**
**http://www.wsspr.wales/social-value.php**

## Thema 3: Gweithlu ac addysg

Mae thema'r Gweithlu ac Addysg o fewn WSSPR yn datblygu rhaglen ymchwil i archwilio'r rôl rhagnodi cymdeithasol. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygiad y gweithlu rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru a gwaith a wneir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Mae'r myfyrwyr PhD Fern Jones a Thomas Roberts wedi cyfrannu at y Fframwaith Sgiliau a Chymhwysedd Cenedlaethol newydd ar gyfer Rhagnodwyr Cymdeithasol Cymru Gyfan, sy'n rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog. Mae astudiaeth Thomas Roberts, 'Rhagnodi Cymdeithasol ar Waith: Ymchwiliad Realaidd i wasanaethau'r Trydydd Sector a'r rhai tu allan i'r GIG' hefyd wedi cymharu'r gweithlu y tu allan i Gymru, gan archwilio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng rôl rhagnodwyr cymdeithasol mewn gwahanol gyd-destunau. Bydd yn cyflwyno ei draethawd ymchwil yn ystod haf 2022. Bydd ei ganfyddiadau yn ychwanegol at yr adroddiad 'Deall presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru'.

PHW_SP_Report_FINAL.pdf (adroddiad Terfynol) (wsspr.wales) wedi cyfrannu at y dystiolaeth a gyflwynwyd gan WSSPR i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ar rôl rhagnodi cymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd meddwl yn 2022. Agenda ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddydd Iau, 19 Mai 2022, 09.00 (senedd.cymru)

*Jones, F., Davies, M., Wallace, C. (2021). Developing a social prescribing training package for link workers in Wales: a rapid realist review. PROSPERO www.crd.york.ac.uk/prospero/display_record.php?ID=CRD42021298317*

*Roberts T, Lloydwin C, Pontin D, Williams M, Wallace C, 2021. The role of social prescribers in Wales: A consensus methods study. Perspectives in Public Health. doi.org/10.1177/1757913921990072*

*Makanjuola, A., (2021) An evaluation study to investigate recruitment into social prescribing interventions and explore the skills sets of link workers in dealing with complex case referrals. MSc Res Thesis. KESS. Prifysgol Bangor. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.*

**Rhagor o wybodaeth ar:**
**http://www.wsspr.wales/workforce-education.php**

# Thema 4: Llesiant

Mae llesiant yn ganlyniad cyffredin sy'n effeithio ar bawb, waeth beth fo'u cyflwr. Nod y thema hon ydy archwilio sut mae gwahanol fodelau llesiant yn cydberthyn, ac yn cael eu hadlewyrchu a'u cymhwyso mewn theori ac ymarfer rhagnodi cymdeithasol.

Fe wnaethon ni adrodd yn gynharach am y gwaith rydyn ni wedi'i gwblhau ar wella lles myfyrwyr a datblygu a phrofi Graddfa Llesiant Cymdeithasol De Cymru (SWSWBS). Mae bellach yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.


Cynhaliodd Gwenlli Thomas, un arall o'n myfyrwyr, adolygiad systematig i archwilio'r dystiolaeth wrth ddatblygu ymyriadau rhagnodi cymdeithasol sy'n defnyddio dull cyd-gynhyrchiol, wedi'i gynllunio ar y cyd. Fe ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth i awgrymu y gall y dull hwn arwain at ganlyniadau llesiant cadarnhaol ymhlith cymunedau yn enwedig os defnyddir gwybodaeth rhanddeiliaid i ddylunio gwasanaethau o'r dechrau'n deg.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ddatblygu'r thema hon mewn ymateb i'r angen a ganfyddir gan ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Byddwn yn gweithio i ddilysu a phrofi'r SWSWBS ymhellach ac yn darparu hyfforddiant ac arweiniad ar sut y gellir defnyddio hyn mewn ymarfer rhagnodi cymdeithasol. Rydyn ni hefyd wedi dechrau cael trafodaethau gyda Phrifysgol Caerhirfryn i archwilio sut y gellir defnyddio'r raddfa hon hefyd gyda rhai yn eu harddegau a phobl ifanc.

*Adolygiad Systematig i Archwilio'r Dystiolaeth wrth Ddatblygu Ymyriadau Rhagnodi Cymdeithasol sy'n Cymhwyso Dull Cyd-gynhyrchiol, Wedi'i Gynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau Llesiant mewn Lleoliad Cymunedol - PMC (nih.gov)*

*Datblygu trafodaeth am nodi anghenion cymunedol i groesawu llesiant trwy ymyriadau rhagnodi cymdeithasol: astudiaeth ansoddol (thelancet.com)*

**Rhagor o wybodaeth ar:**
**http://www.wsspr.wales/wellbeing.php**



# Cynnwys y Cyhoedd

**Mae cynrychiolwyr y cyhoedd wedi bod, ac yn parhau i fod, yn cymryd rhan weithredol yn y datblygiad a gweithgareddau o fewn YYRhCC/WSSPR.**

## Ein cynrychiolwyr cynnwys y cyhoedd

Mae ein cynrychiolwyr cynnwys y cyhoedd yn llywio'r gwaith o gynllunio, dylunio, gweithredu a lledaenu ein hymchwil yn WSSPR. Rydyn ni'n defnyddio safonau'r DU ar gyfer cynnwys y cyhoedd i arwain datblygiad a gweithrediad ein cynlluniau a'n gweithgareddau cynnwys y cyhoedd:

Ym mis Ionawr 2021, ymunodd John Gallanders a Sondra Butterworth â grwpiau llywio a gweithredol WSSPR fel y cynrychiolwyr PPI. Yn anffodus oherwydd pwysau gwaith ni allai Sondra barhau i weithio gyda ni yn 2022 ac felly ymunodd Rashmi Kumar â ni. Diolch i chi i gyd am roi eich amser gwerthfawr a'ch cefnogaeth trwy weithredu fel cyfaill beirniadol i ddatblygu ceisiadau am gyllid, awgrymu syniadau ar gyfer ymchwil ac amlygu heriau ac atebion.

**Sondra, Cynrychiolydd Cleifion a'r Cyhoedd y Grŵp Llywio:** *“Rwy'n credu bod yn rhaid cynnwys y cyhoedd ym mhob cam o'r astudiaeth, nid dim ond ymgynghori goddefol…mae gan y cyhoedd gyfle i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno'r ymchwil. Mae lledaenu canfyddiadau'r ymchwil yn amlswyddogaethol gan y gall godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth ond hefyd ddarparu tystiolaeth ar gyfer ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. O ganlyniad, bydd yn rhaid targedu'r gwaith o ledaenu canfyddiadau at wahanol gynulleidfaoedd a llwyfannau cyfryngau gwahanol”.*

*“Bydd cyhoeddi canlyniadau mewn papurau academaidd yn rhoi dilysrwydd i'r canfyddiadau mewn cylchoedd academaidd a rhai iechyd /meddygol. Fodd bynnag, bydd yr effaith yn gyfyngedig yn y cymunedau y mae modelau rhagnodi cymdeithasol wedi'u cynllunio i'w gwasanaethu. Felly, bydd angen lledaenu darganfyddiad yr ymchwil mewn ffordd fwy creadigol e.e. blogiau ymchwil, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd, gweithdai wedi'u hwyluso ayb.”*

**John, Cynrychiolydd y Grŵp Llywio Cleifion a'r Cyhoedd:** *“[mae'n] hanfodol cael persbectif cyhoeddus wrth helpu i ddylunio cwestiynau ac arddull ymchwil i sicrhau ei fod yn cael ei ddeall a'r neges yn glir ynghylch yr hyn sydd i'w gyflawni – i lawer bydd angen amlygu beth ydy rhagnodi cymdeithasol. a beth fydd y nod cyffredinol o ran helpu unigolion”.*

Ar wahân i'n grŵp llywio, rydyn ni hefyd wedi gweithio gydag aelodau'r cyhoedd ar ddatblygu ceisiadau am gyllid, cael adborth ar ymchwil barhaus a lledaenu ein hallbynnau y tu hwnt i'r gymuned ymchwil. Er enghraifft, fe wnaeth ein haelodau lleyg (oedolion hyd at 91 oed) yn astudiaeth SWSWBS ein helpu i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddiwyd gennym yn hygyrch i aelodau'r cyhoedd. Rydyn ni bob amser yn gwahodd ein cynrychiolwyr PPI i gymryd rhan fel cyd-ymgeiswyr os dymunan nhw wneud hynny pan fyddwn yn gwneud cais am arian grant, ond nid oes disgwyl iddyn nhw wneud hynny.

Wrth symud ymlaen i'n trydedd blwyddyn, fe hoffem wella ein hymglymiad cyhoeddus a chyd-ddylunio a datblygu strategaethau i sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd rhan amlycaf mewn ymchwil i ragnodi cymdeithasol wrth symud ymlaen. Wrth i ni gynyddu ein gweithgareddau wyneb yn wyneb dros y flwyddyn i ddod, rydyn ni'n rhagweld y bydd y cyfleoedd i ymgysylltu yn ein galluogi i gyflawni ein nod.

> **Rwy'n credu bod yn rhaid cynnwys y cyhoedd ym mhob cam o'r astudiaeth, nid dim ond ymgynghori goddefol...**

# Casgliadau ac Edrych Ymlaen

**Mae Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru wedi cwblhau ei hail flwyddyn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn pedair thema; gwerthuso, gwerth cymdeithasol, y gweithlu ac addysg, a llesiant.**

Gan edrych yn ôl ar yr ail flwyddyn hon, rydyn ni wedi goroesi rhai newidiadau yn staff yr ysgol ac yn ein grŵp llywio, ond hefyd wedi cymryd camau breision i feithrin gallu ymchwil. Mae ein hymchwil yn dechrau cael effaith yn y byd go iawn, ac rydyn ni wedi lledaenu ein canfyddiadau i gynulleidfaoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol mewn amrywiol ffyrdd.

Wrth symud ymlaen byddwn yn parhau i ddatblygu ein rhwydwaith byd-eang, ond hefyd yn sicrhau bod ein hymchwil yn cyflawni mewn ymateb i bolisi Llywodraeth Cymru a'i Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol. Y gweithlu, gwerthuso, gwerth cymdeithasol a lles ydy ein themâu blaenoriaeth ymchwil o hyd. Gan ddefnyddio ein model trosiadol o ymchwil rydyn ni'n parhau i ddangos bod ein hymchwil yn cael effaith ar ymarfer ac ar bobl.

Yn y blynyddoedd i ddod, byddwn yn parhau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhagnodi cymdeithasol a chyflawni ymchwil effaith uchel, drwy'r canlynol:

- Cydweithio helaeth ag academyddion blaenllaw a'n rhanddeiliaid.
- Defnyddio'r model ymchwil trosiadol sy'n gwarantu llwybrau at effaith ac ymchwil sy'n diwallu anghenion y byd go iawn. Mae hyn yn cynnwys lledaenu gwaith a dysgu gan ymarferwyr trwy fforymau gwerthuso presgripsiynu cymdeithasol, gweminarau a'n rhwydweithiau.
- Ymchwilio i weithgareddau meithrin gallu ar gyfer ymchwil rhagnodi cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys datblygiad proffesiynol ymchwilwyr WSSPR, e.e. ymchwilwyr ôl-ddoethurol.
- Cyflenwi'r fframwaith gwerthuso, SWSWBS, safonau adrodd a rhestr termau ar gyfer rhagnodi cymdeithasol.
- Rhannu dysg ac arferion da o ymchwil rhagnodi cymdeithasol trwy ein rhwydweithiau, fforymau, digwyddiad blynyddol a chysylltiadau rhyngwladol.
- Datblygu ein pumed thema sy'n dod i'r amlwg: Mannau Gwyrdd a Glas a'r Celfyddydau (GABS+).




**Bydd YYRhCC/WSSPR yn parhau i fod o fudd i bobl Cymru drwy ddatblygu tystiolaeth gadarn i gefnogi arferion rhagnodi cymdeithasol, sydd yn hyrwyddo iechyd, llesiant a rhwystro salwch.**

# Model Rhagnodi Cymdeithasol yng Nghymru

*Rees, S., Thomas, S., Elliott, M., Wallace, C. (2019). Creating community assets/social capital within the context of social prescribing. Canfyddiadau o weithdy gynhaliwyd ar 17/7/2019. WCVA, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Prifysgol De Cymru.*

*http://www.wsspr.wales/resources/Rees%20et%20al%202019.pdf*




## Ffigwr 1

# Rhagnodi Cymdeithasol yng Nghymru

## (Rees et al 2019)

# Ein partneriaid

Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru
WSSPR
Wales School for Social Prescribing Research

Canolfan PRIME Cymru
Wales PRIME Centre

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

WCVA
CGGC

GIG Cymru NHS Wales – Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg / University Health Board

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / University Health Board

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan / University Health Board

GIG Cymru NHS Wales – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / University Health Board

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Prifysgol Bangor University

Cardiff Metropolitan University
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Wrexham Glyndŵr University

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

wihsc
Welsh Institute for Health and Social Care
Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru
Established 1995 • Sefydlwyd 1995

Canolfan Iechyd y Boblogaeth
Centre for Population Health
Canolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth
National Centre for Population Health & Wellbeing Research

RCE
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Well-being of Future Generations

Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru

WSSPR

Wales School for Social Prescribing Research

wsspr@southwales.ac.uk

www.wsspr.wales

@WSSPRCymru

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government